# Templed Asesu Risg y Llwybr

Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â thîm Kids Walk:
e-bostiwch kidswalk@brake.org.uk

Defnyddiwch y templed hwn i'ch helpu i nodi rhai o'r risgiau a allai fod yn berthnasol i chi wrth gymryd rhan mewn Brake's Kids Walk. Mae diogelwch eich plentyn yn hollbwysig bob amser felly gofynnir i chi barhau i ddilyn gweithdrefnau arferol eich ysgol ar gyfer asesu risg a chadw plant yn ddiogel. Cofiwch, yn ogystal â nodi unrhyw risgiau posib, dylech hefyd esbonio unrhyw fesurau rydych chi wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud eich 'tro' asesu risg ar yr un amser â'r amser y byddwch chi'n cymryd rhan yn Brake's Kids Walk, ac ar ddiwrnod ysgol. Os bydd eich taith yn cynnwys cannoedd o blant, bydd yn rhaid i chi ystyried hyn wrth gynnal eich asesiad. Er enghraifft, mae'n cymryd amser hir i gannoedd o blant groesi croesfan pelican!

**Faint o blant sy'n cymryd rhan?**

## Cam 1

### Eich 'tro' asesu risg

Cerddwch y llwybr rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio a llenwi'r adrannau isod.

| | |
|---|---|
| **Manylion y llwybr** | |
| **Hyd y llwybr** | ................................ o fetrau |
| Beth yw'r llwybr? | Disgrifiwch y llwybr: |
| A oes palmentydd a/neu droedffyrdd diogel ar hyd y llwybr cyfan sy'n ddigon llydan i ddau blentyn gerdded law yn llaw, lle nad oes peryglon (e.e. tyllau mawr yn y ffordd) | Oes/Nac oes<br>Os nac oes, rhowch fanylion: |
| A fydd yn rhaid i'r plant groesi unrhyw ffyrdd? | Bydd/Na fydd Os bydd, sawl un? ................................<br>Os bydd, disgrifiwch lle bydd y plant yn croesi: |
| Beth yw'r terfynau cyflymder ar y llwybr? | |
| Ydych chi'n meddwl bod y traffig yn torri terfynau cyflymder neu ddim yn arafu digon ar y llwybr, e.e. lle mae'r ffordd yn troi neu le mae ceir wedi'u parcio? | Ydw/Nac ydw<br>Os ydw, rhowch fanylion: |
| A yw'r plant wedi'u gwahanu rhag y traffig mewn unrhyw ffordd? (e.e. rheiliau, neu ymyl glaswelltog llydan) (Nid yw hyn yn orfodol, ond mae'n eich helpu chi i ddeall diogelwch eich llwybr) | Ydyn/Nac ydyn<br>Os ydyn, rhowch fanylion: |
| Ydych chi wedi nodi unrhyw beryglon penodol ar y llwybr sy'n golygu y gallai plentyn fod mewn perygl o gael ei fwrw gan gerbyd tra bydd ar Brake's Kids Walk? | Ydw/Nac ydw<br>Os ydw, gweler yr adran nesaf |

**Gallwch ddefnyddio'r tabl isod i gofnodi unrhyw risgiau posibl rydych chi wedi'u nodi ac esbonio unrhyw fesurau rydych chi'n eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hynny a chadw plant yn ddiogel.**

| Risg | Beth ydych chi'n gwneud am hyn? |
|---|---|
| | |

## Cam 2 Cerdded yn ddiogel

| EICH YMRWYMIAD | Ticiwch yma eich bod chi'n gwneud y pethau hyn, neu esboniwch os nad ydych chi: |
|---|---|
| Bydd y plant yn dal dwylo mewn parau ac yn cerdded yn ddigyffro ar ffurf 'crocodeil'. | |
| Bydd y plant wedi ymarfer gwneud hyn oddi ar y ffordd mewn iard chwarae neu ar achlysur blaenorol. | |
| Bydd o leiaf:<br>- **un oedolyn** i bob **chwe phlentyn** rhwng 4 a 7 oed<br>- **un oedolyn** i bob **wyth o blant** rhwng 8 ac 11 oed | |
| Bydd yr oedolion wedi derbyn cyfarwyddiadau cyn y digwyddiad i sicrhau bod plant yn cerdded yn ddigyffro ac yn dal dwylo drwy gydol y daith, a'u bod yn aros ar y palmant | |
| Rydych chi wedi derbyn y caniatâd perthnasol i ddefnyddio unrhyw luniau rydych chi'n eu hanfon atom ni yn y wasg/ ar y cyfryngau neu ar gyfer unrhyw gyhoeddiadau gan Brake yn y dyfodol? | Yes /No |

Gwiriwch y llwybr eto ar ddiwrnod Brake's Kids Walk i wirio nad oes peryglon newydd neu annisgwyl, gan hefyd ystyried yr amodau tywydd ac a ydynt yn gofyn am unrhyw ragofalon ychwanegol.

**www.brake.org.uk/kidswalk**

### Asesiad wedi'i gynnal gan:

**Teitl swydd:** ..............................

**Llofnod:** ..............................

**Llofnodwyd:** .............................. **Dyddiad:** ..............................

Trefnir gan Brake the road safety charity

Noddir gan esure

AARDMAN, SHAUN THE SHEEP AND SHAUN'S IMAGE ARE TRADE MARKS OF AARDMAN ANIMATIONS LIMITED 2023. ALL RIGHTS RESERVED.

© BRAKE 2023